

Cwestiynau Cyffredin

A yw'r bagiau y gellir eu hailddefnyddio yn disodli'r bagiau plastig untro?

Bydd y bagiau ailgylchu amldro yn disodli'r bagiau plastig untro presennol ar gyfer eich casgliadau ailgylchu wythnosol. Ni fyddwn yn casglu ailgylchu yn y bagiau plastig mwyach.

Pwy sydd yn y treial?

Yn dilyn treial llwyddiannus mewn rhannau o Fynwy a Chaerwent ar ein cerbydau casglu mawr, rydym yn ymestyn y treial i rai ardaloedd sy'n cael eu casglu ar ein cerbyd maint canolig. Mae hyn yn golygu y byddech yn gweld cartrefi yn eich ardal chi heb eu cynnwys yn y treial yn dal i ddefnyddio'r bagiau plastig untro.

Dydw i ddim wedi derbyn bag amldro?

Dylai eich bagiau fod wedi cael eu gadael ger eich drws. Os ydynt wedi mynd ar goll, cysylltwch â ni.

Beth ddylwn i wneud gyda llwyth mawr o gardfwrdd?

Dylai unrhyw gardfwrdd gael ei gywasgu a'i roi y tu mewn i'ch bag ailgylchu coch os yn bosibl. Os na allwch osod y cardfwrdd y tu mewn i'ch bag, gallwch adael allan cardfwrdd wedi'i gywasgu hyd at 1m² i'w casglu wrth ymyl eich bag ailgylchu.

Rwy'n cael trafferth cario bagiau mawr, sut y gallwch helpu?

Os ydych yn cael trafferth cario'r bagiau, cysylltwch â ni a bydd ein swyddogion ailgylchu yn gallu eich helpu.

Nadolig

Sylweddolwn ar adegau penodol o'r flwyddyn gan gynnwys y Nadolig, bydd llawer o gartrefi yn cynhyrchu mwy o ailgylchu. Gellir gosod ailgylchu ychwanegol naill ai o fewn bocs cardfwrdd neu flwch plastig sbâr y bydd y criwiau'n ei wagio ac yn ei ddychwelyd (cadwch y deunydd coch a phorffor ar wahân os gwelwch yn dda). Gellir cywasgu bocsys cardfwrdd brown a 'u gosod wrth ymyl eich bagiau (uchafswm maint 1m²).

Cysylltwch â ni:

Ymwelwch â'n gwefan am fwy o wybodaeth: [monmouthshire.gov.uk/cy/bagiau-ailgylchu-amldro/](https://www.monmouthshire.gov.uk/cy/bagiau-ailgylchu-amldro/)

01633 644644 @MonCCrecycling

Ymwelwch â'ch Hyb Cymunedol/Llyfrgell.

Bagiau ailgylchu amldro

MAE EICH BAGIAU NEWYDD WEDI CYRRAEDD



Casgliadau yn dechrau yn wythnos

2 Tachwedd 2020

Beth sydd angen i chi wybod...

Pam ydym ni'n newid?

- Yn dilyn y llythyr a gawsoch yn ddiweddar, mae cyflwyno bagiau ailgylchu aml dro ar fin dechrau.
- Rydym heddiw wedi dosbarthu eich bagiau ailgylchu aml dro newydd (cawsant eu gadael yn ymyl eich drws blaen).
- **Gofynnir i chi ddechrau eu llenwi ac wedyn eu gosod allan ar gyfer eich casgliad cyntaf yn ystod wythnos 2 Tachwedd 2020.**
- **Nid yw eich diwrnod casglu wedi newid.**
- **Bydd y bagiau ailgylchu aml dro yn disodli'r bagiau plastig untro presennol ar gyfer eich casgliadau ailgylchu wythnosol.**
- Gellir rhoi'r deunyddiau dilynol yn y bagiau:

Bag ailgylchu coch

Wythnosol

- Papur
- Cerdyn/cardfwrdd
- Post sothach
- Amlenni
- Papurau newydd a chylchgronau



Bag ailgylchu porffor

Wythnosol

- Tuniau a chaniau
- Poteli a thopiau plastig
- Ffwyl cegin
- Erosolau (gwag yn unig)
- Potiau iogwrt a blychau plastig
- Hambyrddau prydau parod a tybiau
- Cartonau sudd ffrwythau



Mae pob cartref wedi cael un bag coch ac un bag porffor wedi y gellir ei aildefnyddio. Bydd pob bag yn dal deunydd ailgylchu cyfwerth dau o'r bagiau plastig a gyflenwyd yn flaenorol. Gwyddom y bydd y capasiti hwn yn ddigonol ar gyfer y rhan fwyaf o aelwydydd, felly gofynnwn i chi weithio gyda'r cyflenwad bydd gennych am bythefnos. Os byddwch yn canfod ar ôl dau gasgliad eich bod yn cynhyrchu mwy o ailgylchu ac yn meddwl bod angen bag ychwanegol arnoch, cysylltwch â ni.

- Cafodd bagiau aml dro eu treialu'n llwyddiannus gyda dros 2000 cartref yn Sir Fynwy ers mis Tachwedd 2019.
- Mae Cyngor Sir Fynwy wedi ymrwmo i ostwng plastig untro. Bydd y bagiau newydd hyn yn gostwng faint o blastig untro a ddefnyddiwn, gan felly ostwng ein heffaith ar yr amgylchedd.
- Mae'n well gan y farchnad ailgylchu dderbyn y deunydd yn rhydd, felly dylai tynnu ein bagiau plastig ostwng cost prosesu.
- Gellir defnyddio bagiau aml dro drosodd a throsodd felly byddant yn costio llai i'w cyflenwi na'r bagiau plastig untro a ddefnyddiwn ar hyn o bryd.

Sut ydw i'n defnyddio'r bagiau?

- Gallwch ysgrifennu enw/rhif eich tŷ yn y blwch a ddarperir ar y bagiau fel eu bod yn hawdd eu hadnabod.
- Rhewch eich ailgylchu glân y tu mewn i'r bag cywir.
- Defnyddiwch y sêl Velcro i gau'r bag, mae hyn yn golygu y bydd yr ailgylchu'n aros yn sych ac yn ddiogel. Mae'r bagiau wedi'u pwysoli er mwyn osgoi cael eu chwythu i ffwrdd.
- Rhewch eich bagiau yn y lle arferol erbyn 7am ar fore'r casglu.

Diolch!

Mae angen i bawb ohonom wastraffu llai ac ailgylchu cymaint ag a fedrwn er mwyn gostwng ein heffaith ar y blaned.